

Manyleb Swydd

Teitl Swydd:	Dylunydd Graffeg (rhan amser)
Prosiect:	Cywain a Menter a Busnes
Adran:	Bwyd a Chorfforaethol
Lleoliad:	Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, Llanelwy neu Meifod
Rheolwr Llinell:	Arweinydd Tîm Canolog
Graddfa:	3
Cyflog:	£22,432 - £24,105
Cytundeb:	Rhan amser (3 diwrnod / 60% - 50% ar brosiect Cywain a 10% ar waith corfforaethol Menter a Busnes).
Sgiliau Dwyieithog:	Hanfodol

Yn dilyn twf o fewn y cwmni ac o fewn prosiect Cywain, rydym yn chwilio am Ddylunydd Graffeg i ymuno â ni. Dyma gyfle gwych i ymuno a chwmni blaengar a gweithio ar brosiect yn niwydiant byrlymus bwyd a diod Cymru sy'n hollbwysig i dŵf yr economi Gymreig.

Bydd y swydd wedi ei rhannu yn 50% ar brosiect Cywain, a 10% ar waith corfforaethol Menter a Busnes.

Cywain

Mae Cywain, a ddarperir gan Menter a Busnes, yn fodel sy'n darparu cefnogaeth wedi'i dargedu ar gyfer busnesau micro a BBaCh sy'n gweithredu yn y sector bwyd a diod yng Nghymru. Rydym yn dechrau cyfnod newydd ac rydym wedi derbyn cyllid trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 - 2020 i ddarparu gwasanaeth diwygiedig. Mae cyllid y prosiect wedi cael ei gadarnhau tan Hydref 2022.

Darperir gwasanaethau i ddatblygu capasiti a gallu busnesau, hwyluso trosglwyddo gwybodaeth a gwybodaeth y diwydiant ac atgyfnerthu integreiddiad y gadwyn gyflenwi. Mae'r ddarpariaeth ar gael ledled Cymru gyda phwyslais ar gydweithio drwy glystyru, ychwanegu gwerth a datblygu'r farchnad ar gyfer twf a chreu swyddi. Mae Cywain wedi datblygu rhwydwaith eang o randdeiliaid ac mae dull gweithredu cydlynol gyda phartneriaid datblygu eraill yn ganolog i ddatblygiad y cleientiaid.

Mae tair elfen i'r prosiect:

- Cefnogaeth i fusnesau newydd a micro
- Cefnogaeth diagnosteg ar gael i holl fusnesau bwyd a diod yng Nghymru
- Clystyru a chyd weithio rhwng busnesau er mwyn hyrwyddo twf ac effeithlonrwydd

Nod y Rôl

- Gweithio yn unol â briffiau dylunio penodol i greu cysyniadau graffeg a chynlluniau ar gyfer arddangosfeydd a chyhoeddiadau trosglwyddo gwybodaeth
- Gweithio yn agos gyda'r rheolwr llinell a fydd yn darparu arweiniad a rheolaeth ar y rhan fwyaf o waith dylunio Cywain
- Creu dogfennau ac ymateb i ofynion eraill Menter a Busnes yn ôl y galw

Prif Ddyletswyddau

- Amrediad llawn o wasanaethau dylunio graffeg i Cywain, gan gynnwys greu cysyniadau, graffeg a chynlluniau ar gyfer yr arddangosfeydd a chyhoeddiadau trosglwyddo gwybodaeth
- Datblygu gwaith dylunio ar gyfer ei argraffu, y we a'r cyfryngau hyrwyddo electronig
- Gweithio'n agos gyda'r Swyddog Marchnata ac aelodau eraill y tîm i gwblhau'r prosiectau dylunio o'r dechrau hyd y diwedd
- Helpu i hybu brand Cywain a Menter a Busnes drwy gyfathrebu'n fewnol ac yn allanol
- Defnyddio technegau creadigol ac arloesol i gyrraedd cynulleidfa eang i hyrwyddo'r gwaith
- Gwerthuso gofynion dylunio'r prosiect ac awgrymu'r fformat / opsiynau gorau sydd ar gael o fewn yr amser
- Rheoli'r berthynas gydag amrywiaeth eang o gyflenwyr, yn arbennig cwmnïau argraffu, datblygwyr ac ati i sicrhau gwerth am arian ac ansawdd uchel cyson
- Gweithio i amserlen y prosiect, sydd yn aml yn ddyddiadau tynn, gan sicrhau ansawdd a safon uchel
- Sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau ac arddangosfeydd sy'n wynebu'r cwsmer yn cwrdd â safonau brandio corfforaethol Llywodraeth Cymru

Arall

- Sicrhau bod y safonau'n cael eu cyrraedd ar gyfer gwasanaethau'r cwsmer, ansawdd, cydraddoldeb ac amrywiaeth a iechyd a diogelwch
- Derbyn dyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill fel y bo'n ofynnol
- Cynrychioli Menter a Busnes fel y bo'n ofynnol

Sgiliau a Phrofiad

Hanfodol

- Gradd mewn dylunio graffeg **neu** gymhwyster wedi'i seilio yn y gwaith **neu** brofiad cyfatebol
- Profiad o reoli a darparu atebion creadigol
- Agwedd ffres a phortffolio dylunio arloesol a chreadigol
- Dealltwriaeth dda neu brofiad o'r sector bwyd a diod
- Sgiliau trefnu gwych, gan gynnwys rheoli amser, ar gyfer yr holl ohebiaeth copi caled ac electronig
- Profiad o reoli ffeiliau gan gynnwys defnyddio meintiau a fformatau amrywiol
- Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu (llafar ac ysgrifenedig) gwych i unigolion a grwpiau o amrywiol feintiau
- Profiad a gwybodaeth am holl Gyfres Greadigol Adobe - yn benodol Illustrator Photoshop ac InDesign
- Sgiliau rhyngpersonol gwych
- Gallu gweithio ar ei b/phen ei hun yn ogystal ag o fewn tîm
- Gallu bod yn rhagweithiol ac i yrru pethau ymlaen yn effeithiol
- Agwedd hyblyg a'r gallu i weithio i amserlenni tynn
- Gallu cadw data'n gyfatebol â deddfau diogelu data perthnasol
- Gallu gweithio i ddyddiadau tynn
- Gallu ysgogi ei hun i weithio, gan dderbyn y cyfrifoldeb am osod ac adolygu blaenoriaethau i gyflawni ei amcanion a'i waith ei hun
- Yn rhagweithiol a brwdfrydig am waith yr Adran Fwyd a'r cwmni
- Sgiliau technoleg gwybodaeth rhagorol gan gynnwys Word, Excel, PowerPoint, cronfeydd data, yr e-bost a'r Rhyngrwyd

Manteisiol

- Profiad o reoli perthynas â chwmnïau argraffu a chyflenwyr eraill
- Sgiliau cyfathrebu dwyieithog (llafar ac ysgrifenedig)
- Gwybodaeth am raglen Cywain
- Car i'w ddefnyddio a pharodrwydd i deithio

Gwneud Cais

Gallwch wneud cais am y swydd hon drwy lenwi ffurflen gais a ffurflen cyfle cyfartal (sydd ar gael ar ein gwefan www.menterabusnes.co.uk) a'u dychwelyd at swyddi@menterabusnes.co.uk.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd hon, cysylltwch â Iestyn Gruffudd ar 02920 467412.

Cyfweliadau

Cynhelir y cyfweliadau ar gyfer y swydd hon ar ddydd Gwener, 23 Tachwedd 2018, yn swyddfa Menter a Busnes yn Aberystwyth. Os yw'r dyddiad yma yn anghyfleus, nodwch hynny ar eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw: 10.00yb, dydd Gwener, 16 Tachwedd 2018.

Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gwelwch ein gwefan i gael copi o'n Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

<http://www.menterabusnes.co.uk/en/about/equality-and-diversity-policy>